Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Emyr Williams, Prif Weithredwr
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfa Parc Cenedlaethol,
Penrhyndeudraeth,
Gwynedd
LL48 6LF

6 Fehefin 2017

Annwyl Emyr

Blaenoriaethau ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol 2017-18

Diben y llythyr hwn yw tynnu sylw at y meysydd blaenoriaeth y byddai Gweinidogion Cymru yn hoffi ichi ganolbwyntio arnynt yn y flwyddyn sydd i ddod.

Rwyf wedi cael y Cynllun Corfforaethol a gyflwynwyd gennych fel rhan o'ch rhaglen o weithgarwch ar gyfer 2017/18. Y grant refeniw gan Weinidogion Cymru i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer y cyfnod hwn yw £3,744,869.

Cyhoeddwyd 'Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru" yn ddiweddar ar ran partneriaeth Tirweddau'r Dyfodol Cymru yr oeddech yn aelod ohoni. Mae'r adroddiad yn dweud mai'r timoedd rheoli ac awdurdodau'r tirweddau dynodedig ddylai arwain ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn eu hardaloedd, ac mae'n pwysleisio pwysigrwydd cydweithio i gyflawni hyn. Ni ddylai tirweddau dynodedig gael eu gwerthfawrogi am eu harddwch naturiol yn unig, ond hefyd fel lleoedd sydd â thirweddau byw ffyniannus sy'n cynnwys cymunedau bywiog, cryf. Maent yn darparu cyfleoedd ar gyfer twristiaeth, hamddena awyr agored, a chyflogaeth leol. Maent yn sicrhau manteision ar gyfer ein hiechyd ac o ran rheoli ein hecosystemau amrywiol.

Fel Awdurdod Parc Cenedlaethol, dylech weithredu fel catalydd i wireddu'r uchelgais hwn drwy weithio gyda'ch gilydd mewn modd cydweithredol.

Yn ogystal â chefnogi'r dull hwn, rhaid i'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ganolbwyntio ar roi blaenoriaethau'r adroddiad ar waith gan gynnwys:

- Rhoi cymorth a chefnogaeth i bartneriaethau eraill ar draws Cymru sy'n rheoli tirweddau er mwyn eu helpu i wireddu potensial eu tirweddau o ran llesiant.
- Mabwysiadu Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a chydweithio i ddarparu canllawiau ar sut i wella cysylltiadau mewn tirweddau dynodedig.
- Datblygu a mireinio'ch dealltwriaeth o gydnerthedd yr economi leol a chyfleoedd economaidd yn eich ardal.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)

Printed on 100% recycled paper

- Cryfhau cydweithrediad a chymorth rhwng y tirweddau a'r ardaloedd dynodedig a Geoparc Byd-eang UNESCO, Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO, statws Gwarchodfa Biosffer UNESCO a Gwarchodfeydd Rhyngwladol yr Awyr Dywyll er mwyn sicrhau cynifer o fanteision i'r economi ac i addysg ag y bo modd.
- Nodi dulliau y gall y tirweddau dynodedig eu defnyddio i adeiladu cydnerthedd ecosystem yn seiliedig ar ganlyniadau'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a'r blaenoriaethau y byddaf yn eu cyhoeddi ym Mholisi Adnoddau Naturiol.

Yn y flwyddyn sydd i ddod, rhaid ichi osod eich gweithgareddau yng nghyd-destun blaenoriaethau cyffredinol y Llywodraeth hon a nodir yn "Symud Cymru Ymlaen". Rwy'n disgwyl i'ch Awdurdod wella'r cysylltiadau â Croeso Cymru a chefnogi'r ymgyrchoedd blynyddol penodol. Mae delweddau eiconig o dirweddau Parciau Cenedlaethol, ynghyd â'r gweithgareddau hamdden a diwylliannol a ddarperir ganddynt, eisoes wedi cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant rhyngwladol yr ymgyrchoedd hyn hyd yma. Mae gan yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol rôl hanfodol i'w chwarae i hyrwyddo iechyd meddwl a chorff a llesiant pobl Cymru, a dylent gynnig rhaglenni a gweithgareddau penodol ar gyfer atal neu wella salwch. Yn ogystal, dylech fynd ati i fanteisio ar gyfleoedd i lywio a chefnogi gwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch datblygu eu cynlluniau llesiant a'u rhoi ar waith.

Dylai'r Awdurdodau Parc ehangu eu darpariaeth i gynnig gweithgareddau, prentisiaethau a rhaglenni i wirfoddolwyr sy'n helpu i ddatblygu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiadau sydd eu hangen ar bobl ifanc er mwyn iddynt ddod yn unigolion amryddawn a hyderus.

Rwy'n disgwyl ichi adrodd ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'ch Cynlluniau Corfforaethol â'r blaenoriaethau a nodir uchod. Cytunir ar fformat ac amserlen yr adroddiad gyda'm swyddogion.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch ichi am y gwaith rydych yn ei wneud i wella bywydau pobl Cymru. Edrychaf ymlaen at gael diweddariadau rheolaidd sy'n nodi'ch cynnydd wrth gyflawni.

Yn gywir

Lesley Griffiths

Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)

Printed on 100% recycled paper